**WHC (2024) 012**

# WELSH HEALTH CIRCULAR

**Status:** Cydymffurfio/I Gweithredu

**Category:** Gweithlu/Llythyr Gweithiwr Iechyd Proffesiynol

**Title:** Tiwtoriaeth a goruchwyliaeth glinigol adferol - Datganiad sefyllfa cenedlaethol

**Date of Review:** 1 Hydref 2025 yn amodol ar werthusiad o weithrediad y polisi.

**Action by:** Gweithredu fesul cam, gyda chynlluniau gweithredu sefydliadol unigol i'w gweithredu erbyn 1 Gorffennaf 2024.

**Required by:** Prif Weithredwyr, Cyfarwyddwyr Gweithredol Nyrsio, Cyfarwyddwyr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol

**Sender:** Sue Tranka, Prif Swyddog Nyrsio dros Cymru
Helen Arthur, Cyfarwyddwr y Gweithlu a Busnes Corfforaethol, Llywodraeth Cymru

**Welsh Government Contacts:** Gillian Knight, Swyddog Nyrsio ar gyfer y gweithlu, rheoleiddio, staff nyrsio a datblygu Gwasanaethau.
gillian.knight@gov.wales

**Enclosures:** Llythyr Llywodraeth Cymru at GIG Cymru gyda dogfen datganiad sefyllfa ynghlwm.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg hefyd / This document is also available in Welsh
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

OGL © Crown copyright xxxx

**Sue Tranka**
**Prif Swyddog Nyrsio / Chief Nursing Officer**
**Cyfarwyddwr Nyrsio GIG Cymru / Nurse Director NHS Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

To: Health board and NHS trust
Chief Executives
Directors of Nursing
Directors of Workforce and OD

19 March 2024

Dear colleagues,

**Nursing Preceptorship & Restorative Clinical Supervision – A National Position Statement**

The recent years of unprecedented pressure and strain on the NHS workforce have outlined the need for nationally consistent direction around career spanning support for staff to be factored into our long-term workforce policy. From a preceptorship programme for newly registered nurses to a framework of restorative clinical supervision to continue supporting them throughout their careers.

To that end I commissioned a project to be undertaken in my office scoping current practice in Wales and reviewing best practice from around the world to inform a recommended policy direction.

Preceptorship and restorative clinical supervision are concepts that are proven, well evaluated and highly valued in other staffing groups such as midwifery and psychology. The evidence suggests that there is value in adopting this approach for other groups within the NHS workforce, however this project focussed solely on nursing due to the proportionally significant scale of the nursing workforce and the explicit commitment in my 2022-2024 priorities. Any considerations of future developments around application of this approach to other professions will be led by HEIW.

Acknowledging that different health boards/trusts will be at different stages of utilising and delivering career-spanning support, in January 2024, I agreed with Executive Directors of Nursing a phased approach to implementation of the policy position set out in the attached document.

I expect this phased approach to be detailed by individual organisations in their own career spanning implementation plans reflecting your proposed schedule of adoption of the preceptorship standards and clinical supervision principles.

I would be grateful to receive these by 1 July this year, and they can be sent to qualityandnursing@gov.wales.

Long term, monitoring of the implementation of this career-spanning support will sit with the NHS Executive. However, until certain structures are fully realised following phase 2 of the NHS Executive’s formation, my office will keep me informed.

Yours sincerely,



**CHIEF NURSING OFFICER**
**NURSE DIRECTOR NHS WALES**
**PRIF SWYDDOG NYRSIO**
**CYFARWYDDWR NYRSIO GIG CYMRU**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

GIG CYMRU
NHS WALES

# Dull Cymru gyfan o wella tiwtoriaeth a goruchwyliaeth glinigol mewn ymarfer nyrsio

OGL © Hawlfraint y Goron 2024, Llywodraeth Cymru, WG48624, ISBN digidol 978-1-83577-800-5
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

## Crynodeb Gweithredol:

Comisiynwyd adolygiad o Diwtoriaeth a Goruchwyliaeth Glinigol gan Brif Swyddog Nyrsio Cymru yn 2022, gyda'r nod o ddatblygu cyfeiriad a safbwynt polisi sy'n gyson yn genedlaethol ar gyfer cymorth proffesiynol gydol gyrfa i'r gweithlu Nyrsio, ar ffurf:

- Tiwtoriaeth sy'n cynorthwyo unigolion trwy'r cyfnod pontio o fod yn fyfyriwr i fod yn Nyrs Gofrestredig hyderus a chymwys;

- Model o Oruchwyliaeth Glinigol Adferol i gefnogi Nyrsys trwy gydol eu gyrfaoedd.

Mae'r ddogfen hon yn egluro'r datganiad sefyllfa ar gyfer Cymru er mwyn llywio'r gwaith lleol o ddatblygu protocolau a phrosesau diwygiedig i wella darpariaeth Tiwtoriaeth a chyflwyno Goruchwyliaeth Glinigol Adferol ledled GIG Cymru, gan hyrwyddo dull gweithredu cyson a chynyddrannol.

O safbwynt Nyrsys dan hyfforddiant cyn-gofrestru, mae gan ddarparwyr rhaglenni gyfrifoldeb i sicrhau bod myfyrwyr yn derbyn cymorth bugeiliol ac arweiniad proffesiynol priodol. Mae gwaith goruchwylio ymarfer myfyrwyr cyn-gofrestru a rhaglenni ôl-gofrestru'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn cael ei reoleiddio o dan y Safonau ar gyfer Goruchwylio ac Asesu Myfyrwyr (Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth 2019).

Er mwyn hyrwyddo eu hymdeimlad o berthyn, datblygu eu sgiliau ymarfer myfyriol a meithrin eu gallu i ddysgu drwy brofiad, bydd myfyrwyr yn derbyn cymorth i gymryd rhan mewn Goruchwyliaeth Glinigol yn yr amgylchedd dysgu ymarfer. Hefyd, bydd Prifysgolion yn sicrhau bod egwyddorion Tiwtoriaeth a Goruchwyliaeth Glinigol yn cael eu hymgorffori yn eu rhaglenni Nyrsio.

Er bod y ddogfen hon wedi'i datblygu i gynorthwyo Nyrsys a gyflogir gan GIG Cymru, mae'r dull rhagnodedig yn berthnasol ac yn fanteisiol i broffesiynau eraill ac i'r rhai a gyflogir yn y sectorau iechyd a gofal ehangach, fel meincnod ar gyfer ymarfer da.

## Nodau:

Nod y datganiad sefyllfa cenedlaethol hwn ar gyfer Tiwtoriaeth a Goruchwyliaeth Glinigol Adferol yw:

- Meithrin a chefnogi dull gweithredu tosturiol yn y proffesiwn Nyrsio trwy wella llesiant a hyrwyddo diwylliant iach sy'n canolbwyntio ar ymarferwyr.

- Gwella'r broses o gadw pobl yn y proffesiwn, a hyrwyddo recriwtio hefyd.

- Cydnabod pwysigrwydd datblygiad proffesiynol parhaus a dysgu gydol gyrfa.

- Gwella gofal Nyrsio diogel ac effeithiol trwy feithrin ymarferwyr cymwys, hyderus a myfyriol.

Yn y cyd-destun hwn, mae *Tiwtoriaeth* yn gyfnod sy'n arwain ac yn cynorthwyo pob Nyrs Gofrestredig newydd i bontio'n llwyddiannus o fod yn fyfyriwr i fod yn

ymarferydd atebol, annibynnol, gwybodus a medrus. Mae *Goruchwyliaeth Glinigol Adferol* yn broses o gefnogaeth, myfyrio a dysgu proffesiynol sy'n cyfrannu at ddatblygiad unigol ac yn gwella gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r elfen adferol yn darparu amgylchedd cefnogol, diogel a dibynadwy i'r sawl sy'n cael ei oruchwylio, fel bod modd myfyrio ar ymatebion a theimladau personol a hwyluso'r broses o ganfod atebion creadigol.

**Tiwtoriaeth:**

Mae cyfnod o Diwtoriaeth yn sylfaen ar gyfer dechrau taith gydol gyrfa o fyfyrio, gan hyrwyddo hunaniaeth a datblygiad proffesiynol parhaus wrth baratoi i ail-ddilysu rôl Nyrs Gofrestredig (NMC 2020). Nod Tiwtoriaeth yw sicrhau bod Nyrs Gofrestredig newydd yn teimlo ei bod yn cael ei gwerthfawrogi a'i hysbrydoli i weithredu mewn ffordd gymwys a hyderus wrth ddarparu gofal Nyrsio rhagorol a diogel. Mae cymorth o'r fath ar gyfer unigolion cofrestredig newydd yn seiliedig ar waith ymchwil ac yn hanfodol i ymarfer proffesiynol.

Mae pontio o fod yn fyfyriwr i fod yn Nyrs Gofrestredig yn gallu bod yn heriol, ac mae Tiwtoriaeth o ansawdd da yn gallu helpu Nyrsys newydd i deimlo'n fwy hyderus yn eu gallu i ddarparu gofal o ansawdd da.

Mae'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth wedi archwilio profiadau Nyrsys Cofrestredig newydd (NMC 2023). Mae'r Cyngor yn nodi bod profiadau cynnar gweithwyr proffesiynol Nyrsio a Bydwreigiaeth yn gallu bod yn negyddol os nad ydynt yn derbyn cymorth. Gall diffyg cymorth effeithio ar eu hyder a'u hymdeimlad o allu ymarfer yn ddiogel, gan ddylanwadu ar eu penderfyniad i aros yn y proffesiwn ai peidio.

Mae gan gyflogwyr ddyletswydd i greu amgylcheddau gwaith iach sy’n ddiogel yn seicolegol ar gyfer tiwtoreion, gan ddarparu cymorth teg, strwythuredig a hyblyg i ddiwallu anghenion unigol a gofynion y maes clinigol. Dangoswyd bod rhaglenni Tiwtoriaeth llwyddiannus yn meithrin ymdeimlad o werth a pherthyn, yn lleihau cyfraddau gadael ac yn gwella cyfraddau cadw staff.

Mae'r Cyngor wedi cydweithio â Phrif Swyddogion Nyrsio'r DU i ddatblygu egwyddorion Tiwtoriaeth. Mae'r broses o fabwysiadu Tiwtoriaeth yn amrywio rhwng ac oddi mewn i sefydliadau Cymru. Disgwylir y bydd egwyddorion y Cyngor ynghyd â'r safonau a nodir yn y tabl isod yn cael eu croesawu ledled Cymru i sicrhau "cychwyn gorau" cyson i bob Nyrs Gofrestredig newydd. Mae safonau Cymru’n seiliedig ar Egwyddorion Tiwtoriaeth y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ond maent yn safonau ychwanegol.

**Safonau Tiwtoriaeth Cymru Gyfan**

1. Mae tiwtoriaeth yn orfodol ledled GIG Cymru a rhaid i sefydliadau baratoi ar gyfer tiwtoreion.

2. Bydd rhaglenni tiwtoriaeth yn cael eu cyflwyno mewn diwylliant dysgu a llesiant sy'n iach ac yn dosturiol.

3. Bydd tiwtoreion yn cael eu croesawu a'u hintegreiddio i'r gweithle a byddant yn derbyn cymorth effeithiol ac amserol i'w helpu i ddatblygu'n ymarferwyr atebol, annibynnol, gwybodus a medrus. Byddant yn weithwyr ychwanegol yn

ystod mis cyntaf eu cyflogaeth a bydd eu rhaglen Tiwtoriaeth yn para hyd at 18 mis.

4. Bydd gan diwtoriaid y sgiliau, y wybodaeth ac amser dynodedig i gefnogi tiwtoreion trwy gydol y cyfnod Tiwtoriaeth, gan gynnwys amser i ffwrdd am dâl ar gyfer hyfforddiant.

### Goruchwyliaeth Glinigol Adferol:

Mae'r gwaith cwmpasu a gafodd ei wneud ledled Cymru yn dangos nad oes un dull cyson yn cael ei ddefnyddio ar gyfer Goruchwyliaeth Glinigol. Mae'r Coleg Nyrsio Brenhinol (2022) wedi nodi bod Goruchwyliaeth Glinigol wedi dod yn bwysicach fel ffynhonnell cymorth seicolegol ac emosiynol ar gyfer Nyrsys, Bydwragedd a Gweithwyr Cymorth Nyrsio. Ar sail y dystiolaeth a adolygwyd, a barn rhanddeiliaid, gwelir mai goruchwyliaeth adferol yw'r model o ddewis i Gymru. Mae Goruchwyliaeth Glinigol Adferol yn hwyluso myfyrdod, ac mae'n elfen hanfodol o ymarfer proffesiynol diogel ac effeithiol. Bydd darpariaeth yn cael ei datblygu a'i llywodraethu ar lefel leol, gan ddefnyddio dull cynyddrannol.

Mae lefel uchel o ddiogelwch seicolegol yn grymuso ymarferwyr i ymddwyn mewn ffordd sy'n ennyn dysgu, parodrwydd i siarad, rhoi adborth a gofyn am adborth, a chwilio am gamgymeriadau a'u cywiro. Mae Goruchwyliaeth Glinigol Adferol yn cynnig amser a chymorth dynodedig a lle diogel i ymddwyn yn y modd hwn er mwyn gwella gofal cleifion ac ymarfer proffesiynol. Mae arweinwyr yn sicrhau bod Goruchwyliaeth Glinigol yn cael ei chydnabod fel blaenoriaeth ansawdd a diogelwch, gan ddangos ymrwymiad i ddatblygu diogelwch seicolegol a diwylliant dysgu iach.

Bydd mynediad at Oruchwyliaeth Glinigol Adferol ar gael bedair gwaith y flwyddyn o leiaf, a bydd amlder a hyd yr oruchwyliaeth yn ddigonol i sicrhau ymarfer diogel a chymwys. Bydd y trefniadau goruchwylio mwyaf priodol ar gyfer unigolion yn cael eu penderfynu gan eu profiad, y math o waith sy'n cael ei wneud ganddynt, a'u hanghenion personol. Mae angen i sefydliadau ddatblygu dull hyblyg o ddarparu Goruchwyliaeth Glinigol Adferol sy'n diwallu anghenion sefydliadau ac unigolion, ar sail y safonau a amlinellir yn y tabl isod.

### Egwyddorion Goruchwyliaeth Glinigol Cymru Gyfan

1. Bydd damcaniaeth ac ymarfer Goruchwyliaeth Glinigol yn cael eu cynnwys yn y cyfnod sefydlu ar gyfer Nyrsys, gan ddefnyddio dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn hyrwyddo diwylliant iach.

2. Rhaid i sefydliadau ddarparu amser gwarchodedig i staff dderbyn a darparu Goruchwyliaeth Glinigol Adferol ym mhob lleoliad, a'i chynnwys mewn rhaglenni Tiwtoriaeth strwythuredig.

3. Bydd sefydliadau yn trefnu, yn galluogi ac yn sicrhau bod prosesau Goruchwyliaeth Glinigol Adferol ar waith, gan hwyluso'r broses o'i chyflwyno, ei monitro a'i gwerthuso.

4. Bydd gan oruchwylwyr fynediad at oruchwyliaeth, hyfforddiant a rhwydwaith cymorth proffesiynol. Mae darparu mynediad at Oruchwyliaeth Glinigol Adferol yn ofyniad gorfodol. Y safonol sylfaenol = 1.5 awr y Nyrs, bedair gwaith y

flwyddyn.

5. Bydd model adferol o Oruchwyliaeth Glinigol yn cael ei gyflwyno mewn ffordd hyblyg mewn sesiynau grŵp/unigol, wyneb yn wyneb neu ar-lein, ar sail anghenion y sawl sy'n cael ei oruchwylio. D.S.: Ni fydd grwpiau sy'n cael eu goruchwylio'n cynnwys mwy na 6 unigolyn.

### Cyfrifoldebau:

Mae yna gyfrifoldeb ar y cyd ac unigol i sicrhau bod Tiwtoriaeth a Goruchwyliaeth Glinigol Adferol yn cael eu gwreiddio'n effeithiol yn y gweithle, gan feithrin diwylliant sy'n gwerthfawrogi ac yn hyrwyddo profiad gwaith cadarnhaol ac sy'n cefnogi dysgu a gwelliant parhaus. Cyflogwyr sy'n gyfrifol am lywodraethu, a bydd prosesau monitro a gwella ar waith yn lleol. Bydd y dull gweithredu'n gynyddrannol, wedi'i gyflwyno dros amser ac yn seiliedig ar gynlluniau gweithredu sefydliadol unigol.

### Sefydliadau'r GIG:

Bydd Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd yn nodi arweinydd sefydliadol a fydd yn datblygu ac yn monitro'r cynllun gweithredu lleol ar gyfer Nyrsio, yn unol â'r datganiad sefyllfa cenedlaethol. Bydd noddwyr gweithredol yn cynorthwyo'r arweinydd dynodedig i sefydlu:

- Seilwaith sefydliadol sy'n ei gwneud yn ofynnol i arweinwyr Nyrsio ar bob lefel roi'r cynllun gweithredu ar waith.
- Diwylliant iach a thosturiol sy'n gwerthfawrogi ac yn galluogi Goruchwyliaeth Glinigol Adferol ar gyfer Nyrsys.
- Amgylcheddau priodol ar gyfer darparu Goruchwyliaeth Glinigol Adferol.
- Dull sefydliadol o fonitro a gwerthuso Goruchwyliaeth Glinigol Adferol, gan ddefnyddio templed cenedlaethol i ddarparu adroddiad blynyddol i Weithrediaeth y GIG.

Bydd sefydliadau'n darparu hyfforddiant ar gyfer goruchwylwyr clinigol a'r rhai sy'n cael eu goruchwylio yn unol â'r rhaglen addysg genedlaethol y cytunwyd arni, sy'n cynnwys unedau astudio. Bydd arweinwyr yn garedig, yn dosturiol, ac yn sylwgar, gan feithrin diwylliannau amrywiol, cynhwysol a chadarnhaol yn y gweithle - Egwyddorion Arweinyddiaeth Dosturiol - Porth Arweinyddiaeth Gwella AaGIC i Gymru.
Bydd yr holl addysg yn cael ei chofnodi yn y Cofnod Staff Electronig (ESR) gan sicrhau bod modd casglu data gofynnol er mwyn adrodd am fetrigau allweddol a chynnydd sefydliadol i Ddirprwy Gyfarwyddwyr Nyrsio yn gyfnodol, ar ran Grŵp Cymheiriaid EDoN, ac yn flynyddol i Weithrediaeth y GIG.

Bydd sefydliadau'n ymwreiddio proses enwebu sy'n sicrhau bod Nyrsys sy'n dymuno bod yn oruchwylwyr yn bodloni'r meini prawf cymhwystra y cytunwyd arnynt.
Bydd angen i reolwyr llinell lofnodi cytundeb i gadarnhau eu hymrwymiad i ddarparu amser gwarchodedig ar gyfer addysg, cymorth a goruchwyliaeth.

### Gofynion ar gyfer Goruchwylwyr Clinigol:

- Meddu ar y wybodaeth a'r sgiliau priodol i gyflawni'r rôl yng nghyd-destun eu hymarfer, gan ymgymryd â'r unedau addysgol cenedlaethol y cytunwyd arnynt.
- Derbyn adborth rheolaidd ar eu hymarfer a chymryd rhan mewn datblygiad proffesiynol parhaus.

- Cynnal ymddiriedaeth a phroffesiynoldeb perthynas ag eraill yn y rôl bob amser trwy sicrhau cyfrinachedd.
- Rhoi adborth ar themâu cyffredin i reolwyr er mwyn helpu i wella gwasanaethau wrth ddiogelu cyfrinachedd y rhai sy'n cael eu goruchwylio.
- Cymryd rhan yn rheolaidd mewn Goruchwyliaeth Glinigol fel un a oruchwylir ac yn y rhwydwaith cymorth cymheiriaid cenedlaethol.

**Gofynion ar gyfer y rhai sy'n cael eu goruchwylio:**

- Deall egwyddorion a safonau Goruchwyliaeth Glinigol Adferol, gan ymgymryd â'r uned addysgol genedlaethol ofynnol.
- Cymryd perchnogaeth o'u Goruchwyliaeth Glinigol i sicrhau cyfranogiad a datblygiad proffesiynol rheolaidd, gan gadw cofnod i gefnogi'r broses ail-ddilysu.
- Darparu adborth ar eu gweithgarwch a'u profiad goruchwylio i alluogi gwelliant parhaus.
- Perchnogi dogfennau’n ymwneud â myfyrdodau, trafodaethau a gweithgareddau dysgu dan oruchwyliaeth, gan gydsynio i'r goruchwylydd rannu gwybodaeth (ac eithrio pan fydd gofyniad cyfreithiol neu ddyletswydd broffesiynol i ddatgelu).

**Addysg:**

Cytunwyd ar ddull cenedlaethol o ddarparu addysg ar gyfer Goruchwyliaeth Glinigol Adferol, gydag uned e-ddysgu ragarweiniol a thraws-broffesiynol ar gyfer goruchwylwyr a'r rhai sy'n cael eu goruchwylio, a modiwlau ar gyfer goruchwylwyr, wedi'u datblygu gan Grŵp Arweinwyr Addysg Nyrsio Cymru Gyfan (gyda chymorth Eiriolwyr Nyrsys Proffesiynol ledled Cymru), mewn cydweithrediad ag aelodau Tîm Digidol Addysg a Gwella Iechyd Cymru ynghyd ag arweinwyr Gwyddorau Iechyd a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd. Bydd yr unedau addysg ar gael drwy’r ESR a Thŷ Dysgu (AaGIC) ym mis Ebrill 2024. Bydd rhwydwaith cymorth cymheiriaid cenedlaethol yn cael ei sefydlu ar gyfer goruchwylwyr, gyda chymorth Grŵp Arweinwyr Addysg Nyrsio Cymru Gyfan.

**Gwerthuso:**

Bydd sefydliadau'r GIG yn cwblhau gwerthusiad ffurfiol o'u dull gweithredu yn ymwneud â Thiwtoriaeth a Goruchwyliaeth Glinigol Adferol o leiaf bob blwyddyn, gan baratoi adroddiad i Weithrediaeth y GIG, yn ogystal â chymryd rhan mewn gwaith ymchwil i ddangos effaith. Bydd hyn yn cynnwys:

- Polisïau, gweithdrefnau a phrosesau Tiwtoriaeth a Goruchwyliaeth Glinigol.
- Darpariaeth, defnydd, presenoldeb ac effeithiolrwydd hyfforddiant.
- Adborth gan gyfranogwyr a hwyluswyr.
- Tystiolaeth o welliannau i ymarfer.

**Cydnabyddiaeth:**

Cydnabyddir cyfraniad y canlynol:
Michelle Moseley, Ruth Wyn-Williams, Rhiannon Jones.
Grŵp Arweinwyr Addysg Nyrsio Cymru Gyfan ac Eiriolwyr Nyrsys Proffesiynol.
AaGIC a'r Tîm Digidol yn benodol.
Suzanne Lake – NHS Education Scotland.
Diolchwn ymlaen llaw gan ragweld y bydd datganiad sefyllfa hwn ar gyfer Tiwtoriaeth a Goruchwyliaeth Glinigol Adferol ym maes Nyrsio ledled GIG Cymru yn cael ei fabwysiadu'n gyson.

**Manylion Cyswllt:**

**ansawddanyrsio@llyw.cymru**

**Cyfeiriadau:**

NMC (2019) Standards for Student Supervision and Assessment. Standards for Student Supervision and Assessment - Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (nmc.org.uk)

NMC (2020) NMC Principles of Preceptorship Principles of Preceptorship – Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth  (nmc.org.uk)

Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2023) Spotlight on Nursing and Midwifery Report. spotlight-on-nursing-and-midwifery-report-2023.pdf (nmc.org.uk)

Y Coleg Nyrsio Brenhinol (2022) Safbwynt yr RCN ar oruchwyliaeth glinigol. RCN position on clinical supervision | Royal College of Nursing